**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (186)**
**Dydd Mercher, 8 Mawrth 2006**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

......................................

**Eitem 1 -** Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Eitem 3** - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y contract deintyddol newydd

**Eitem 4** - Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG

*Cynnig i drafod y 3 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân*
**Eitem 5** – Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (Diwygio) 2006

**Eitem 6** - Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Diwygio) 2006

**Eitem 7** - Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2006

**Eitem 8 -** Dadl ar Ddisgyblaeth mewn Ysgolion

**Eitem 9 -** Dadl fer wedi'i gohirio o 25 Ionawr 2006: Tamsin Dunwoody (Preseli Sir Benfro): Hen Greiriau, Busnes Newydd: Archeolegol a Hanesyddol

**Eitem 10 -** Dadl fer - NDM2900 Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru

......................................

## Eitem 1 - Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

......................................

## Eitem 2 - Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

......................................

## Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y contract deintyddol newydd

......................................

## Eitem 4 - Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2006

**NDM2902 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006.

**NDM2903 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar

17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2006
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

*Cynnig i drafod y 3 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân*

## Eitem 5 – Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (Diwygio) 2006

**NDM2905 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (Diwygio) 2006
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

## Eitem 6 - Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Diwygio) 2006

**NDM2907 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Diwygio) 2006
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

......................................

## Eitem 7 - Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2006

**NDM2909 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2006
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

......................................

## Eitem 8 - Dadl ar Ddisgyblaeth mewn Ysgolion

**NDM2901Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r gwaith a wneir i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan tuag at ymddygiad a disgyblaeth mewn ysgolion yng Nghymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

***Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:***

**(1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 + 10)**
**(11 + 12)**

**1. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod effaith niweidiol methu â chadw disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth ar addysg ein plant.

**2. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i gyflwyno canllawiau i sicrhau hawliau athrawon i gymryd eiddo disgyblion oddi arnynt, i'w cadw ar ôl, ac i ddefnyddio camau priodol i ffrwyno disgyblion treisgar.

**3. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i egluro cyfrifoldebau rhieni a'u gofynion mewn contractau rhieni, gan nodi'r ystod o gosbau a allai ddilyn o fethu ag ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn.

**4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i nodi y bydd dysgu "dinasyddiaeth" yn cynnwys deall cyfrifoldebau unigolion a'r ffaith fod angen iddynt barchu cydraddoldeb hawliau pobl eraill a'u heiddo.

**5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi'r cynnydd dychrynllyd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu 'gwahardd am gyfnod penodol' o ysgolion yng Nghymru.

**6. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi gyda phryder bod y lefelau triwantiaeth mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ill dau ar eu huchaf yn ardaloedd difreintiedig Cymru, ac yn cwestiynu polisi’r ‘cynllun brecwast am ddim yn yr ysgol’ fel ffordd o fynd i'r afael â'r broblem hon.

**7. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi’r bwlch rhwng y ddau ryw o ran disgyblaeth mewn ysgolion; bod mwy o fechgyn yn absennol heb ganiatâd, mwy’n cael eu gwahardd a bod eu cyrhaeddiad addysgol yn is.

**8. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod na wnaiff polisïau gwrth-fwlio ddatrys y broblem hon ar eu pen eu hunain, a bod angen eu rhoi ar waith mewn ffordd ragweithiol”.

**9. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod effaith a’r defnydd cynyddol o dechnoleg cyfathrebu newydd mewn achosion o fwlio a bod angen cryfhau canllawiau polisi'n barhaus er mwyn mynd i’r afael â hyn".

**10. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod effaith problemau cymdeithasol ehangach ar ddisgyblaeth ysgolion ac yn nodi mai yng Nghymru y mae’r cyfraddau uchaf yn Ewrop o ran beichiogi ac erthylu ymysg merched yn eu harddegau, a’i bod yn wynebu sefyllfa lle mae’n haws o hyd cael gafael ar gyffuriau ynghyd â chynnydd yn nifer y digwyddiadau sy’n gysylltiedig ag yfed alcohol ac ysmygu yn ysgolion Cymru.

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod:

a) ei bod yn hanfodol adnabod yn fuan unrhyw broblemau sy’n ymwneud â dysgu a chymryd camau wedi’u targedu.
b) bod deiet yn cael effaith sylweddol ar ymddygiad.
c) effaith amgylchedd adeiledig gwael ar ymddygiad.
d) swyddogaeth hanfodol rhieni wrth ddylanwadu ar ymddygiad a’r angen i gefnogi rhieni’n llwyr yn eu rôl.
e) bod cyfoedion a’r cyfryngau yn dylanwadu ar ymddygiad plant hefyd.
f) y gwaith a wnaed hyd yn hyn gan swyddfa’r Comisiynydd Plant a grwpiau megis Barnardo’s ac NCH, yr elusen blant.

**12. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i gynnwys y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn llawn wrth ddatblygu’r polisi hwn.

.....................................

## Eitem 9 - Dadl fer wedi’i gohirio o 25 Ionawr 2006: Tamsin Dunwoody (Preseli Sir Benfro): Hen Greiriau, Busnes Newydd: Archeolegol a Hanesyddol

.....................................

## Eitem 10 - Dadl fer - NDM2900 Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru

.....................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

.....................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 14 Mawrth 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**